Cafodd Cyngor Sir Ynys Môn yr awgrymiadau canlynol am newidiadau cyn dechrau'r arolwg:

Caergybi – Awgrymodd Cyngor Tref Caergybi fod ei ffin yn cael ei hymestyn i gynnwys Ynys Gybi gyfan a bod Cymunedau Trearddur a Rhoscolyn yn cael eu cyfuno o fewn Cymuned Caergybi.

Cwm Cadnant – Awgrymodd Cyngor Cymuned Cwm Cadnant fod ffin ei Gymuned yn cael ei hymestyn tua'r gorllewin i gynnwys pob eiddo gyferbyn â'r troad i Landegfan ar hyd Heol Penmynydd B5420 a thua'r dwyrain i gynnwys pob eiddo wrth gyffordd Black Horse Lane ar yr A5025 ac ar hyd y ffordd un lôn i Lansadwrn.

Pentraeth – Awgrymodd Cyngor Cymuned Pentraeth fod ei ffin ogledd-orllewinol yn cael ei hestyn i gnnwys rhan o Gymuned Llanfair Mathafarn Eithaf yng nghyffiniau Rhos y Gad a rhan o Gymuned Llanddyfnan yng nghyffiniau Tyn-y-pwll.